Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 13ddeg Chwefror 2017 am 7.00 o'r gloch

Presennol: H.E. Thompson, Gareth Evans, Robert Jones, Elwyn Evans, Cyng Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.
Ymddiheuriad: Gadeirydd Wendy Whitby,(sâl) Is Gadeirydd Eleri Puw,(Mamolaeth) C. Crowley (sâl)
Datgan Diddordeb:
Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd Gareth Evans, diolch iddo am lenwi y bwlch.
Ein llongyfarchiadau i'n Cyng Eleri Puw ar enedigaeth Elain Llwyd.
Ein dymuniadau gorau i'n Cadeirydd Wendy Whitby sydd ddim yn dda ar hyn o bryd
Croeso i Nia Davies Ceidwad Hammden Cyfoeth Naturiol Cymru – dymuniad Nia oedd cael hawl i godi bwrdd hysbys i ddangos llwybrau y goedwig, gwelsom y rhai a ddymunai osod. Trafodwyd a chytunwyd yw osod rhwng y ciosg a'n bwrdd hysbys ni.
Derbyniwyd cofnodion Ionawr 2017 a'u llofnodi gan y Cadeirydd,

1. Cae Chwarae: Nid oedd dim yw drafod, ond pwyso ar Sean's Lawns am ateb os oedd am gario 'mlaen fel llynedd.
2. Mynwent: dal i aros am y gât
3. Llwybrau: Nodwyd bod loriau ysbwriel yn croesi ffordd preifat Tanybryn i nol ysbwriel o'r biniau sydd wedi eu gosod gogyfer a'r Ganolfan, dylent ddod fyny y ffordd ger Y Ganolfan,
4. Cyng. Gwynedd: Adroddodd bod gan Cyngor Gwynedd arian wrth gefn tua 1.1 miliwn, bydd yn help i ysgolion uwchradd y blwyddyn nesaf. Sôn am godi y treth tua 2.8%. Mae Cyngor Gwynedd yn cael canmoliaeth am eu cynllunio am y tair blynedd. Nodwyd bod Llys Cadfan yn cael gwelliant, ond beth fydd hanes Y Ganolfan Dydd Bryn Dysynni. Diolch Cyng Lawton.
5. Ciosg: Ni does dim yw adrodd.
6. Abergynolwyn Difibrilator: Derbyniwyd archeb am £105.60 gwaith ychwanegol, ond adroddwyd bod popeth yn iawn rwan. Trafodwyd a phasiwyd yw dalu.
7. Un Llais Cymru: Derbyniwyd archeb am gwrs a fynychodd y Clerc a Cynghorwr E Thompson. Cyfanswm yn £70 llai 50% i ffwrdd o'r ffi y Cynghorwr. Pasiwyd i dalu y £52.50. Bydd 50% costau y Clerc yn dod o NALC . Pasiwyd i ymuno a Un Llais Cymru am 2017 /18 y gost yn £71.00 .
8. Derbyniwyd anfoneb BDO archwilwyr allanol, yr oedd yn £90 yn uwch na llynedd. Pasiwyd yw dalu.
9. Biniau Baw Cwn: Cafwyd dipyn o broblemau yn ystod y mis, un yn cwympo oddiar polyn wedi torri ac un arall heb ei wagu. Popeth mewn llaw erbyn y cyfarfod yma.
10. Diolch: Derbyniwyd gair o ddiolch gan Mrs Barbara Jones BEM am ei cherdyn llongyfarch.
11. Cais Cynllunio: Cae Dolur, Bodilan Fach – lleoli 9 uned rhwng 11/8/17 a 11/9/17 fel rhan o brosiect "Blwyddyn Chwedlan"Croeso Cymru. Trafodwyd a phasiwyd ein bodyn "edrych ymlaen".
    (2) Ceisiadau wedi ei ganiatau Ty Pridd a Dol Idris a Maes Meriafel.
12. Cyngor Gwynedd: Nodwyd bod gwaith yw gario allan yn ymyl Maesymeillion.
13. Archwiliad Mewnol: Mr John Roberts wedi cytuno am 2016/17
14. Cyfarfod Cynhoeddus: Pendre Tywyn, ar 5ed Ebrill am 7 o'r gloch gyda Mr Arfon Jones, Comisiynydd Gogledd Cymru.
15. PHAcomms: Proposed base station installation at Cedris Farm.
16. Apêl am arian: Pwyllgor Carnifal at de parti i bawb ar dydd Gwyl Dewi. Trafodwyd a phasiwyd i roi £50.
17. Nodwyd bod Cyfarfod Blynyddol Ysbyty Tywyn am 6 o'r gloch ar 22ain o Chwefror 2017.
18. Taliadau:

Phil Pugh	defib(rhodd)	£105.60	siec883
Un Llais	cwrs x 2	52.50	884
Un LLais	ymuno	71.00	885
Swyddfa Archwiliad Cymru	archwiliad	267.75	886
Pwyllgor Carnifal Aber	rhodd	50.00	887

YMDDIRIEDOLAETH - MARI JONES:
Dim yw adrodd.

Cyfarfod Nesaf Nos Lun 13eg Mawrth 2017 - Cyffredin am 7 o'r gloch